astudiaeth achos

Carmarthenshire CONNECT

CYSWLLT Sir Gaerfyrddin

Goresgyn y Gagendor Digidol drwy Fideo

Astudiaeth Achos ar Brosiect Bach gan Gyswllt Sir Gaerfyrddin

Karlis Ozolins
Swyddog Maes TGCh

Crynodeb

Mae'r astudiaeth achos hon yn amlinellu prosiect fideo nodweddiadol a drosglwyddwyd gan Gyswllt Sir Gaerfyrddin i grŵp cymunedol yr oedd y prosiect wedi dod i gyswllt â nhw yn flaenorol. Fe fu'r tîm yn gweithio'n agos gyda'r grŵp i gyflwyno technolegau fideo newydd i bobl ifanc, gan eu galluogi i ddysgu sgiliau cynhyrchu fel ffilmio, technegau camera a thechnegau cyfweld, i greu DVD i hyrwyddo eu grŵp.

Cefndir

Mae Organised Kaos yn syrcas i bobl ifanc yn Nyffryn Aman Uchaf. Mae'n taclo ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y gymuned leol trwy ddarpariaeth ieuenctid sy'n seiliedig ar sgiliau ac sy'n galluogi pobl ifanc i sianelu eu hegni mewn ffordd greadigol. Mae'r grŵp yn dysgu sgiliau syrcas i bobl ifanc, gan amrywio o byramidiau o bobl i arddangosiadau tân, ac mae'n anelu at 'gadw pobl ifanc oddi ar y strydoedd' (kaos).

Cyn dechrau ar y prosiect fideo hwn, roedd Cyswllt Sir Gaerfyrddin wedi dod i gyswllt â'r grŵp trwy sesiynau estyn allan ble bu cyfranogwyr yn cymryd ffotograffau digidol a chlipiau fideo byr o'u gweithgareddau i'w cyhoeddi ar flog Cyswllt Sir Gaerfyrddin.

Diben Cynnwys y Gymuned

Mae prosiectau bach Cyswllt Sir Gaerfyrddin yn cyflwyno lefel uwch o gyswllt gyda grwpiau cymunedol na'r sesiynau estyn allan. Nod y prosiect fideo hwn oedd helpu Organised Kaos i gynhyrchu eu DVD eu hunain i farchnata'u gweithgareddau, gan helpu cefnogi eu datblygiad fel menter gymdeithasol gynaliadwy. Trwy gymryd rhan yn y prosiect, fe fyddai aelodau'r grŵp yn gallu cymryd mwy o berchnogaeth o'r cynnyrch terfynol tra'n dysgu sgiliau cynhyrchu fideo mwy penodol, o'r cynllunio i'r golygu.

Y Broses o Gynnwys y Gymuned

I ddechrau, cyfarfu Cyswllt Sir Gaerfyrddin gydag arweinydd grŵp Organised Kaos i drafod eu nodau a'u disgwyliadau ac i nodi canlyniadau'r prosiect a'r graddfeydd amser. Datblygwyd strwythur deg sesiwn i gynllunio a ffilmio'r cynnwys yr oedd ei angen ar gyfer y DVD, dod â'r aelodau i gyswllt â thechnoleg fideo, a golygu'r cynnyrch terfynol.

Cyn y sesiwn gyntaf, datblygwyd sgript gryno gydag arweinydd y grŵp, yn amlinellu'r hyn y dylai'r fideo ei danlinellu a'i hyrwyddo. Roedd yn cynnwys cefndir y grŵp, yr hyfforddiant i bobl ifanc a pherfformiadau.

Yn ystod y deg sesiwn cyswllt, fe fu'r swyddog prosiect yn helpu'r grŵp i ddefnyddio'r dechnoleg, gan arddangos technegau ffilmio amrywiol a disgrifio sut fyddai saethiadau penodol yn edrych yn y fideo. Anogwyd y bobl ifanc i gymryd rhan ym mhob agwedd o'r ffilmio, o ddefnyddio'r camerâu i recordio'r llais gan ddefnyddio microffon. Fe gafodd y gweithgareddau hyn dderbyniad da gan y bobl ifanc. Roedd yna gyfle iddyn nhw i arbrofi gyda'r offer mewn amgylchedd diogel a chyfeillgar, gydag arweiniad gan y swyddog prosiect, a dysgu sgiliau lefel uwch.

Roedd yr ymagwedd yn annog graddau sylweddol o berchnogaeth ymhlith y bobl ifanc ac roedden nhw'n gallu cydnabod eu cyfraniadau at y fideo terfynol.

Fel rhan o'r prosiect, defnyddiwyd mathau eraill o gyfranogiad hefyd i gofnodi gweithgareddau'r grŵp. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio camerâu fideo Busbi bach i ffilmio darnau byr a gyhoeddwyd ar wefan Cyswllt Sir Gaerfyrddin ac ar flog Organised Kaos, i godi ymwybyddiaeth bellach o'r grŵp ac i hyrwyddo ei weithgareddau.

Manteision ac Anfanteision

Manteision

- Mae'n gallu cael ei addasu ac mae'n hyblyg i anghenion a syniadau grŵp.
- Mae'n annog perchnogaeth dros y cynnyrch terfynol.
- Gellir cyflwyno lefel uwch o gyswllt o gymharu â chyswllt gwaith estyn allan.
- Helpu codi ymwybyddiaeth o'r grŵp trwy'r ffilm derfynol a newyddion a gyhoeddir ar wefan Cyswllt Sir Gaerfyrddin.
- Cyflwynir cyfleoedd dysgu ymarferol mewn amgylchedd cyfeillgar a diogel.
- Addysgu proses a thechnegau newydd i grŵp sy'n taclo allgau digidol.
- Creu cyfleoedd i unigolion ddod i gyswllt â thechnolegau newydd.

Anfanteision

- Graddau amser yn gallu bod yn anodd eu rheoli a'u cynnal, gan ddibynnu ar y grŵp.
- Mae'n gallu bod yn anodd dod i gyswllt â grwpiau mawr (15+) yn ystod un sesiwn.
- Mae'r gwaith paratoi a'r gwaith dilynol yn gallu cymryd amser.

Cyfeiriadau

http://www.carmsconnect.org.uk/labels/Organised%20Kaos.html